

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Fframwaith Gwella

1. Diben

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru y bydd angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wneud cynnydd arnynt er mwyn cael ei symud i lawr o fesurau arbennig. Mae hefyd yn amlinellu disgwyliadau gwella mwy hirdymor er mwyn sicrhau ei fod yn cynnal ac yn datblygu'r cynnydd hwnnw er mwyn camu ymhellach i lawr y lefelau uwchgyfeirio fel y bydd yn dychwelyd i drefniadau arferol.

2. Cefndir

2.1 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru

Mae i drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru dri math o ymyrraeth, pob un ar lefel uwchgyfeirio uwch na'r un flaenorol.

- Monitro Uwch
- Ymyrraeth wedi'i Thargeddu
- Mesurau Arbennig

Gan ddibynnu ar natur y materion, gallai'r uwchgyfeirio a'r ymyrryd fod ar gyfer y corff GIG yn ei gyfarwydd neu ar gyfer gwasanaeth penodol y mae'n ei ddarparu neu, weithiau, y ddau.

Y nod cyffredinol yw cefnogi cyrff y GIG sydd o dan drefniadau ymyrryd i wneud y gwelliant angenrheidiol a rhoi sylw i unrhyw broblem(au) yn effeithiol er mwyn camu i lawr y lefelau ymyrryd a dychwelyd i drefniadau arferol.

2.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rhoddwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o dan Fesurau Arbennig ym mis Mehefin 2015. Y meysydd allweddol a oedd yn peri pryder ar y pryd oedd rhai yn ymwneud ag ansawdd (rheoli heintiau, rheoli cwynion a phryderon), arweinyddiaeth a llywodraethiant, cynllunio a materion cysylltiedig â gwasanaethau penodol gan gynnwys mamolaeth, iechyd meddwl a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau. Roedd pryderon sylweddol yn ogystal ynghylch cysylltiad a pherthynas y bwrdd iechyd â'i boblogaeth leol. Ers 2015, cafodd pryderon ynghylch perfformiad a rheolaeth ariannol eu huwchgyfeirio ac ym mis Chwefror 2018 cafodd y rhain eu cynnwys o dan drefniadau Mesurau Arbennig.

O ran ansawdd a gwasanaethau penodol, mae cynnydd wedi bod wrth wneud y gwelliannau angenrheidiol a chyrraedd y disgwyliadau a'r cerrig milltir a amlinellwyd yn y fframweithiau blaenorol. O ganlyniad, cafodd gwasanaethau mamolaeth eu hisgyfeirio o fesurau arbennig ym mis Chwefror 2018, ac aeth gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn ôl i drefniadau monitro arferol ym mis Chwefror 2019. Mewn trafodaethau teirochrog, nodwyd y cynnydd a'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a mesurau ansawdd a nodwyd pwysigrwydd cynnal a datblygu hyn.

Mae bellach angen eglurder ar ddisgwyliadau y mae angen eu gwella ar unwaith o ran y pryderon allweddol ynghylch mesurau arbennig sy'n weddill, sef cynllunio, materion yn ymwneud â pherfformiad a rheolaeth ariannol, a chynnal y cynnydd mewn gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn ystyried eu symud i lawr i ymyrraeth wedi'i thargedu. Nodir y disgwyliadau hyn yn RHAN A o'r fframwaith. Bydd angen i'r bwrdd iechyd wneud cynnydd gwirioneddol ar y disgwyliadau a nodir yn RHAN A gan sicrhau hefyd nad yw gwelliannau yn y meysydd hyn yn effeithio'n negyddol ar rannau eraill o'i weithgareddau.

Mae'n hanfodol hefyd fod y bwrdd iechyd yn cynnal momentwm i ddangos sut mae'n gwneud cynnydd tuag at arddangos y nodweddion y disgwylir eu gweld mewn sefydliad effeithiol sy'n cael ei lywodraethu'n dda. Mae'r fframwaith yn RHAN B yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn camu ymhellach i lawr y lefelau uwchgyfeirio i statws trefniadau arferol.

Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar sut y gall y bwrdd iechyd asesu a dangos ei fod yn gwella ac nid yw'n rhestr o gamau i'w ticio ac yna eu diystyru. Bydd gofyn i'r bwrdd iechyd farnu ar ei gynnydd a beth sydd angen ei wneud i wella ymhellach er mwyn camu i lawr y lefelau uwchgyfeirio.

Mae'r fframwaith hwn yn RHAN A yn canolbwyntio ar y disgwyliadau allweddol y bydd angen i'r bwrdd iechyd ddangos cynnydd arnynt er mwyn cael ei symud i lawr o fesurau arbennig. Mae RHAN B yn canolbwyntio ar y disgwyliadau tymor canolig/hirdymor i ddangos cynnydd tuag at fod yn sefydliad effeithiol sy'n cael ei lywodraethu'n dda. Nodir y disgwyliadau mewn pedwar maes allweddol:

- Gallu arwain a gwella
- Gweledigaeth strategol a newid
- Perfformiad gweithredol
- Cyllid a defnyddio adnoddau

3. Y Fframwaith

RHAN A – disgwyliadau y bydd angen i'r bwrdd iechyd o leiaf ddangos cynnydd arnynt er mwyn cael ei isgyfeirio o fesurau arbennig.

Maes: Gallu Arwain a Gwella
➤ Mae arweinwyr yn deall yr heriau ac yn sicrhau bod arbenigedd a gallu perthnasol yn y system drwyddi draw yn mynd i'r afael â rhwystrau, gan gael effaith wirioneddol a darparu canlyniadau gwell.
Maes: Gweledigaeth Strategol a Newid
➤ Mae'n gallu profi ei fod yn gweithio gyda staff a phartneriaid i ddatblygu darlun clir a chynhwysfawr o sut y bydd gwasanaethau yn edrych yn y dyfodol a bod y Bwrdd wedi ystyried cynllun tair blynedd credadwy a realistig erbyn mis Ebrill 2020.
Maes: Perfformiad Gweithredol

- Mae cynnydd y gellir ei ddangos yn cael ei wneud mewn perfformiad gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu yn seiliedig ar ddealltwriaeth o alw a capasiti;
- Mae cynnydd yn cael ei gynnal wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl cynaliadwy o safon ac wrth ddatblygu modelau gofal newydd.

Maes: Cyllid a Defnyddio Adnoddau

- Mae gwelliannau yn cael eu dangos mewn cynllunio ariannol ac yn y sefyllfa ariannol gan gynnwys manteisio ar gyfleoedd i wneud arbedion/gwella effeithlonrwydd.

RHAN B – disgwyliadau a nodweddion y bydd angen i'r bwrdd iechyd ddangos ei fod yn eu cynnal ac yn eu datblygu er mwyn sicrhau ei fod yn camu i lawr i statws trefniadau arferol.

Maes: Gallu Arwain a Gwella

Disgwyliadau:

- Gweledigaeth argyhoeddiadol ar gyfer y bwrdd iechyd y mae'r sefydliad cyfan yn ei deall, ei chydabod a'i derbyn
- Arweinyddiaeth weladwy sy'n agored i her, yn deall y problemau ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau
- Capasiti a gallu gwell i gyflawni a gellir dangos y gwelliant hwnnw
- Arddangos diwylliant ac ymddygiad sefydliadol yn bositif
- Gofal a chanlyniadau o safon
- Systemau atebolrwydd clir
- Defnyddio data a gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi penderfyniadau

Dangosir y rhain gan:

- Mae staff yn dweud bod arweinwyr yn fwyfwy gweladwy, yn haws mynd atynt ac yn fwy agored i her
- Mae arweinwyr yn deall yr heriau ac yn gallu eu nodi a gweithredu i fynd i'r afael â nhw ac maent yn defnyddio data a gwybodaeth i fonitro cynnydd
- Gall y sefydliad brofi ei fod yn deall datblygu sefydliadol parhaus a bod ganddo'r gallu, yr arbenigedd a'r capasiti perthnasol yn ei system drwyddi draw i gyflawni datblygu sefydliadol parhaus ac i fuddsoddi amser ac adnoddau ynddo
- Mae gan y mudiad ddiwylliant agored a thryloyw a pharodrwydd i ddysgu
- Mae staff yn fwyfwy ymwybodol o'r fframwaith atebolrwydd a'r systemau sydd yn eu lle, ac yn eu deall, gan gynnwys strwythur clir sy'n diffinio atebolrwyddau
- Mae canlyniadau arolygon staff yn dangos cynnydd a phositifrwydd
- Tystiolaeth o fecanweithiau effeithiol i godi pryderon a digwyddiadau ac adrodd a gweithredu arnynt, a chymryd camau mewn ymateb i

ymchwiliadau mewnol neu adolygiadau allanol ➤ Mae rhanddeiliaid allanol yn dweud bod y berthynas â'r bwrdd iechyd yn bositif ac mae tystiolaeth o gydweithio a pherchnogaeth well drwy'r system gyfan gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
--

Maes: Gweledigaeth Strategol a Newid Disgwyliadau: ➤ Mae gan y sefydliad weledigaeth glir a strategaeth gredadwy i ddarparu gofal cynaliadwy o ansawdd uchel yn seiliedig ar gynlluniau cyflawni ➤ Caiff staff, partneriaid a'r cyhoedd eu cynnwys wrth lunio'r weledigaeth a'r strategaeth ac maent yn cyfrannu atynt ➤ Caiff modelau gofal newydd eu datblygu gyda staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau ➤ Diwylliant o ofal o ansawdd uchel Dangosir y rhain gan: ➤ Gall y bwrdd brofi bod gan y bwrdd iechyd ddarlun clir a chynhwysfawr o sut y bydd gwasanaethau yn edrych yn y dyfodol ac mae map ffordd yn ei le i wireddu hyn gan gynnwys amcanion o ran ansawdd, perfformiad a chyllid ➤ Mae'r weledigaeth a'r strategaeth yn gyson â chynlluniau sefydliadau partner ac mae staff a defnyddwyr gwasanaethau yn rhan weithredol o'u datblygiad ➤ Gall y bwrdd iechyd ddangos arweinyddiaeth glinigol weladwy a sut mae cleifion, partneriaid a staff wedi'u cynnwys ac wedi cyfrannu at ei weledigaeth a'i strategaeth ➤ Mae cynlluniau'n realistig o ran cyflawni blaenoriaethau a darparu gofal o safon ➤ Mae'r broses o roi cynlluniau ar waith yn cael ei monitro a'i hadolygu'n effeithiol gan y Bwrdd

Maes: Perfformiad Gweithredol Disgwyliadau: ➤ Mae targedau perfformiad allweddol a osodwyd yn ei gynllun gweithredu wedi'u cyrraedd, ac mae cynnydd y gellir ei ddangos wedi'i wneud tuag at gyrraedd safonau cenedlaethol ➤ Mae prosesau clir ac effeithiol yn eu lle i reoli risgiau a materion o ran cyflawni targedau perfformiad ➤ Caiff tystiolaeth o gyflawni ei hadolygu'n rheolaidd ac mae prosesau llywodraethu mewnol yn herio perfformiad yn adeiladol Dangosir y rhain gan: ➤ Cynllun clir yn seiliedig ar ddealltwriaeth o alw a chapasiti
--

- Prosesau llywodraethu ac atebolrwydd mewnol effeithiol sy'n dangos tystiolaeth o reoli risg yn effeithiol
- Cyrraedd targedau perfformiad a osodir yn y cynllun a dangos gwelliant tuag at gyrraedd safonau cenedlaethol mewn gofal wedi'i gynllunio, gofal heb ei drefnu a gwasanaethau iechyd meddwl

Maes: Cyllid a Defnyddio Adnoddau

Disgwyliadau:

- Mae'r sefydliad yn defnyddio'i adnoddau'n effeithiol ac yn symud tuag at sefyllfa ariannol gynaliadwy

Dangosir y rhain gan:

- Cyflawni canlyniadau'r cynllun gweithredu blynyddol o ran rheoli'r defnydd o adnoddau gan gynnwys cyfleoedd i wneud arbedion/gwella effeithlonrwydd
- Mesurau gafael a rheoli cadarn yn y system drwyddi draw i roi'r cynllun ar waith gan gynnwys rheoli pwysau yn ystod y flwyddyn
- Mae aelodau o staff yn deall y trefniadau atebolrwydd sydd yn eu lle i roi'r cynllun ar waith, ac maent yn cyfrannu atynt

4. Adolygu

Bydd disgwyl i'r bwrdd iechyd gynnal hunanadolygiad o'i sefyllfa bresennol a darparu adroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru erbyn 13 Rhagfyr. Bydd canfyddiadau'r hunanadolygiad yn cael eu hystyried yn ystod y cyfarfod teirochrog rheolaidd a bydd cynnydd yn cael ei drafod ymhellach mewn cyfarfod teirochrog arbennig yng ngwanwyn 2020.